O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2024 Rhif 917 (Cy. 149)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A458 (Croesfan Reilffordd Moat Lane, Caersŵs a Chroesfan Reilffordd Tal-y-bont, Tal-y-bont, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024

Gwnaed	*9 Medi 2024*
Yn dod i rym	*20 Medi 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470 a'r darn perthnasol o gefnffordd yr A458, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A470 a'r A458 (Croesfan Reilffordd Moat Lane, Caersŵs a Chroesfan Reilffordd Tal-y-bont, Tal-y-bont, Powys) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Medi 2024.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y cefnffyrdd" ("*the trunk roads*") yw cefnffordd yr A470 y Drenewydd i Aberystwyth a chefnffordd yr A458 yr Amwythig i Ddolgellau;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau ar 20 Medi 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn ei dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 9 Medi 2024

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A470 yng Nghaersŵs, Powys, sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r gogledd o groesfan reilffordd Moat Lane hyd at bwynt 20 metr i'r de o'r groesfan reilffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A458 yn Nhal-y-bont, Powys sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r dwyrain o groesfan reilffordd Tal-y-bont hyd at bwynt 20 metr i'r gorllewin o'r groesfan reilffordd honno.